OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1307

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022

Disgrifiad o bersonau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth

3. At ddiben paragraff 5(1D)(c) o Atodlen 9 i'r Ddeddf, caiff awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad i berson sy'n cynnal busnes fel—

(a) person sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig i berson o fewn paragraff 5(1D)(a) a (b) o Atodlen 9 i'r Ddeddf;

(b) ymgymerwr dŵr neu ymgymerwr carthffosiaeth o fewn ystyr Deddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**);

(c) trawsgludwr nwy o fewn yr ystyr a roddir i "gas transporter" gan adran 7 (trwyddedu trawsgludwyr nwy cyhoeddus) o Ddeddf Nwy 1986(**2**);

(d) cyflenwr nwy o fewn yr ystyr a roddir i "gas supplier" gan adran 7A (trwyddedu cyflenwyr nwy a chludwyr nwy) o Ddeddf Nwy 1986(**3**);

(e) dosbarthwr trydan o fewn yr ystyr a roddir i "electricity distributor" gan adran 6 (trwyddedau sy'n awdurdodi cyflenwi, etc.) o Ddeddf Trydan 1989(**4**);

(f) cyflenwr trydan o fewn yr ystyr a roddir i "electricity supplier" gan adran 6 o Ddeddf Trydan 1989(**5**);

(g) darparwr cyfathrebiadau cyhoeddus o fewn yr ystyr a roddir i "public communications provider" gan adran 151(1) (dehongli Pennod 1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**6**).

(**1**) 1991 p. 56.
(**2**) 1986 p. 44; amnewidiwyd adran 7 gan adran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45). Diwygiwyd adran 7(1) wedi hynny gan adran 76(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 7 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) Mewnosodwyd adran 7A gan adran 6(1) o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45). Diwygiwyd is-adran (2) wedi hynny gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27). Diwygiwyd is-adran (3) gan adran 149(7) o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 7A yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) 1989 p. 29; amnewidiwyd adran 6 gan adran 30 o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27). Diwygiwyd adran 6(1)(c) wedi hynny gan Ran 1 o Atodlen 23(1) i Ddeddf Ynni 2004 (p. 20). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 6 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) Diwygiwyd adran 6(1)(d) gan O.S. 2012/2400. Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 6 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) 2003 p. 21.